

SL(6)034 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, o 7 Awst 2021, nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau¹ yn gymwys. Yr effaith yw:

- nad oes unrhyw derfynau penodol ar nifer y bobl a gaiff ymgynnull, gan gynnwys mewn cartrefi preifat ac mewn mannau cyhoeddus;
- nad oes unrhyw derfynau penodol ar nifer y bobl a gaiff fynd i ddigwyddiadau rheoleiddiedig ar unrhyw adeg;
- nad oes unrhyw ofynion i unrhyw fathau penodol o fusnesau neu wasanaethau gau.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau eraill yn parhau i fod yn gymwys, gan gynnwys gofynion ar bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y mangreoedd, a gofynion i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do.

Er gwaethaf llacio'r rheolau ar bobl yn ymgynnull ac yn mynd i ddigwyddiadau, mae'r mesurau rhesymol sy'n dal i fod yn ofynnol mewn mangre reoleiddiedig yn golygu y gall fod angen i'r rheini sy'n gyfrifol am y fangre bennu terfynau ar nifer y bobl a gaiff ymgynnull, ac ar gapasiti digwyddiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r gofyniad i berson ynysu ar ôl cael ei hysbysu gan swyddog olrhain cysylltiadau ei fod wedi cael cysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws. Mae'r Rheoliadau yn mewnosod esemptiad newydd i ddarparu nad yw'n ofynnol mwyach i oedolion ynysu ar ôl cael hysbysiad o'r fath os ydynt wedi cwblhau, yn y Deyrnas Unedig, gwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn iddynt gael y cysylltiad agos, neu os ydynt yn cymryd rhan mewn treial clinigol yn y Deyrnas Unedig o frechlyn yn erbyn y coronafeirws. Hefyd, nid oes gofyniad mwyach i bersonau o dan 18 oed ynysu ar ôl cael hysbysiad o'r fath.

Nid oes unrhyw newid i'r gofynion i bersonau ynysu ar ôl cael eu hysbysu eu bod wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

¹ Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609)



Mae'r Rheoliadau hefyd:

- yn darparu y bydd y prif Reoliadau yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 26 Tachwedd 2021 (yn hytrach na 27 Awst 2021);
- dileu'r gofyniad penodol i'r person sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau sydd o dan do yn y fangre (ond rhaid i'r person sy'n gyfrifol barhau i gymryd pob mesur rhesymol, yn seiliedig ar asesiad risg, i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre, a all gynnwys cadw pellter corfforol);
- dileu'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd cyhoeddus o dan do mewn mangreoedd lle y gwerthir bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre (ond pan fo mathau gwahanol o fusnesau yn gweithredu o fangreoedd o'r fath hefyd, rhaid gwisgo gorchuddion wyneb o hyd yn y rhannau hynny o'r mangreoedd lle na werthir bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre).

Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.



Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymhellach ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

